**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFIHANGEL-AR-ARTH**
**COMMUNITY COUNCIL**

# POLISI
# CYDRADDOLDEB A RHYWOGAETH

Adolygwyd a Mabwysiadwyd/
Reviewed and Adopted:

20.11.2023

**CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH**

**POLISI CYDRADDOLDEB A RHYWOGAETH**

1. Mae llwyddiant y Cyngor yn dibynnu ar waith ei Chynghorwyr a'i gweithwyr. Bydd manteisio ar yr hyn sy'n unigryw am unigolion a defnyddio eu safbwyntiau a'u profiadau gwahanol yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei gwaith ar ran ei aelodau.

2. Bydd y Cyngor yn gweithio'n ddyfal i geisio creu amgylchedd cynhyrchiol, sy'n cynrychioli ac yn ymatebol i ddiwylliannau a grwpiau gwahanol, lle y caiff pawb gyfle cyfartal i gyfrannu i amcanion y sefydliad.

3. Mae gan aelodau a gweithwyr gyfrifoldeb i feddiannu a chefnogi'r weledigaeth hon ac mae'n rhaid inni barhau i herio ymddygiad ac agwweddau sy'n atal y sefydliad rhag cyflawni ei weledigaeth. Trwy ddefnyddio arferion cyflogaeth teg, gwrthrychol a blaengar, nôd y Cyngor yw sicrhau:

- Bod pob aelod, gweithiwr a darpar weithiwr yn cael eu trin yn deg a chyda pharch trwy gydol eu haelodaeth neu gyflogaeth.
- Bod pob aelod a gweithiwr yn cael yr hawl i beidio dioddef aflonyddwch a bwlio o unrhyw fath, nac unrhyw fath arall o ymddygiad digroeso, boed yn seiliedig ar ryw, statws trawsrywiol, statws priodasol, statws partneriaeth sifil, beichiogrwydd, hil, anabledd, oed, cred wleidyddol neu grefyddol neu rywioldeb.
- Bod pob aelod a gweithiwr yn cael cyfle cyfartal i gyfrannu ac i gyflawni eu potensial, heb roi ystyriaeth i unrhyw nodwedd ddifiniol at gamwahaniaethu annheg.

## 4. RHYWEDD

Mae'r Cyngor wedi llwyr ymrwymo i:

- herio stereoteipiau rhywedd;
- gefnogi gweithwyr i gydbwyso eu bywyd yn y gwaith ac yn y cartref;
- cefnogi gweithwyr sy'n beichiogi a chymryd camau pendant i'w helpu i fynd yn ôl i weithio ar ôl cyfnod mamolaeth.

## 5. STATWS TRAWS-RYWIOL

Mae pobl sy'n bwriadu mynd trwy, sydd yn mynd trwy, neu sydd wedi mynd trwy ail-bennu rhywedd yn cael eu diogelu rhag pob math o gamwahaniaethu ac aflonyddwch. Bydd y Cyngor yn cymryd camau pendant i gefnogi person traws-rywiol ac i sicrhau eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

## 6. STATWS PRIODASOL

Mae pobl yn cael eu trin yn deg a chyfartal o fewn y sefydliad, waeth beth yw eu statws priodasol, partneriaeth sifil neu deuluol.

## 7. HIL

Mae'r Cygnor wedi ymrwymo i:

- herio stereoteipiau hiliol;
- ddeall, parchu a gwerthfawrogi cefndiroedd a safbwyntiau hiliol a diwylliannol gwahanol.

## 8. ANABLEDD

Mae aglluoedd pobl anabl yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi o fewn y sefydliad trwy:

- ganolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach nag ar beth na allant ei wneud;
- herio stereoteipiau am bobl ag anableddau;
- gwneud addasiadau priodol yn y gweithle i helpu pobll ag anableddau gyflawni eu potensial gyrfaol llawn.

## 9. OED

Caiff amrywiaeth oed ei hyrwyddo a'I werthfawrogi trwy herio stereoteipio oed.

## 10. CRED GREFYDDOL

Caiff pobl eu trin yn degyn y Cyngor waeth beth yw eu credoau a'u harferion crefyddol trwy gydnabod rhyddid cred unigolion a'u hawl i gael eu diogelu rhag anoddefgarwch ac erledigaeth.

## 11. HIV

Nid yw camwahaniaethu yn erbyn gweithiwr neu ddarpar weithiwr oherwydd bod ganddynt, neu y credir fod ganddynt, HIV neu AIDS yn dderbyniol a chaiff cyfrinachedd ei barchu yn unol â dymuniadau unigolyn a chanddo/i HIV neu AIDS.

## 12. RHYWIOLDEB

Caiff pobl eu trin yn deg yn y Cyngor waeth beth yw eu rhywioldeb trwy:

- barchu ffyrdd gwahanol o fyw;
- herio agweddau stereoteipiol negyddol.